Ministry of Justice

# Y Concordat ar Fenywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r System Gyfiawnder Troseddol

## Adroddiad Cynnydd

Ionawr 2023

# Cyflwyniad

Mae’r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd (2018) wedi amlygu pwysigrwydd partneriaethau effeithiol i roi sylw i anghenion menywod, sy’n aml yn rhai cymhleth, sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â’r system gyfiawnder troseddol. Mae’r Strategaeth yn ymrwymo’r Llywodraeth i ddatblygu Concordat ar gyfer Cymru a Lloegr i gyflwyno model cydweithio sy’n gweithio ar lefel genedlaethol a lleol.

Cyhoeddwyd y Concordat ym mis Ionawr 2021 a’i nod yw annog partneriaethau ar lefel genedlaethol a lleol, a rhwng y ddau. Ni fwriedir iddo ddisodli trefniadau cyfredol sy’n gweithio’n dda, ond yn hytrach adeiladu ar y rhain i wella’r cymorth presennol i fenywod. Mae’r Concordat yn ystyried anghenion oedolion benywaidd ac nid yw’n cynnwys y system gyfiawnder ieuenctid oni nodir hynny’n benodol.

Mae’r Concordat yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae gan Gymru ei thirwedd ddeddfwriaethol a’i pholisi ei hun mewn meysydd megis iechyd, gofal cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, tai a llety, addysg a sgiliau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Nid ar y system gyfiawnder troseddol yn unig y mae pwyslais y Concordat, oherwydd ni fydd ymateb cyd-gysylltiedig yn effeithiol oni fydd yn cynnwys sefydliadau sy’n gyfrifol am faterion megis iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, cyflogaeth, lles a thai. Mae angen cynnwys pob un o’r rhain os am weld gwelliannau gwirioneddol

Bydd yr adroddiad hwn yn disgrifio’r cynnydd sylweddol a wnaed gennym i gwblhau’r cynllun gweithredu deg pwynt cenedlaethol, gan gynnwys lansio cystadlaethau cyllid grant, diweddaru’r Bwrdd Cyflawni a strwythurau llywodraethu ehangach i wella cydweithredu a gweithio â chyd-lofnodwyr y Concordat i ddatblygu Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd.

Nid yw cwblhau’r cynllun gweithredu cenedlaethol yn golygu diwedd ar gydweithredu trawslywodraethol ar fenywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â’r system gyfiawnder troseddol. Bwriedir iddo’n hytrach ddisgrifio’r cynnydd ar wella cydweithrediad hyd yma a chyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Dull

- Mae cyflawni nodau'r Concordat yn gyfrifoldeb a rennir, ac mae'r adroddiad hwn yn ymgorffori cyfraniadau cyd-lofnodwyr ac ardaloedd lleol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymgysylltu hefyd â rhanddeiliaid allanol i sicrhau bod yr adroddiad yn adlewyrchu'n gywir effaith y Concordat ar y sector gwirfoddol menywod, yn ogystal â menywod eu hunain.

Data a dadansoddiad

- Mae maint bychan y samplau ac effaith y pandemig COVID-19 ar gyfraddau troseddu a gweithrediad y system gyfiawnder troseddol yn anodd i'w meintioli ar hyn o bryd, ac felly ni fyddai'n briodol i wneud tybiaethau ar dueddiadau sy'n seiliedig ar ddata 2020 yn unig.

- Mesurir Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd yn erbyn Fframwaith Canlyniadau sy'n cynnwys metrigau ar gyfer llwyddiant. Bydd y Concordat, fel rhan o'r strategaeth ehangach, hefyd yn cael ei fesur yn erbyn y fframwaith hwn.

# Cynllun Gweithredu Cenedlaethol

*Rydym wedi cwblhau'r gweithgarwch penodol a nodwyd yng nghynllun gweithredu cenedlaethol y Concordat. Fodd bynnag, mae mwy y gallwn ei wneud o hyd i adeiladu ar y cynnydd a wnaed i hybu integreiddio gwasanaethau'n lleol i fenywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol. Bydd y camau nesaf hyn yn cael eu cyflawni fel rhan Gynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd yn ystod y blynyddoedd nesaf.*

## Cam Gweithredu 1: Adolygu ymateb y Llywodraeth i fenywod sy'n agored i niwed

Yr hyn y dywedwyd y byddem yn ei wneud

- Cynrychiolwyr o blith pob cyd-lofnodwr (ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr, neu swyddog priodol arall) i fynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd Cyflawni.
- Adroddiad ar waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i wella canlyniadau i fenywod yn y system gyfiawnder troseddol i gael ei gyhoeddi.
- Adrodd ar gynnydd i gyflawni ein cyd-ymrwymiad a chanlyniadau y cytunwyd arnynt yn y Bwrdd Cyflawni ac yn yr adroddiad "Blwyddyn Ymlaen".

Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi adolygu gwaith sy'n cael ei wneud ac wedi datblygu Cynllun Cyflawni a fydd yn hybu ymateb y llywodraeth i fenywod agored i niwed.**
    - Cyfarfu Bwrdd Menywod yn y System gyfiawnder Troseddol (WCJS), o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Menywod yn y System gyfiawnder Troseddol ddwywaith yn 2022 ac mae'n gwneud cynnydd ar Gynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd.
    - Mae Tîm Polisi Troseddwyr Benywaidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi asesu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, ac mae hyn yn sail i'r meysydd y canolbwyntir arnynt.
    - Dechreuodd y Bwrdd Cyflawni WCJS trawslywodraethol gwrdd yn rheolaidd ym mis Tachwedd 2021 gyda'r aelodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r Bwrdd Cyflawni wedi galluogi cydlynu gwell ar draws y llywodraeth nag a fu yn y gorffennol.
    - Mae aelodau'r Bwrdd Cyflawni wedi cael eu comisiynu i roi diweddariadau ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes troseddwyr

benywaidd ac mae'r rhain wedi llywio'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd.

- Mae'r bwrdd gweinidogol wedi cytuno ar set o egwyddorion gyda'r nod

***Camau dethol a gymerwyd ar draws y llywodraeth i wella canlyniadau i fenywod agored i niwed***

***Diogelwch: Tasglu Hunan-niweidio (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi)***

- *Cafodd Adolygiad o Hunan-niweidwyr Mynych yn Ystâd y Menywod ei gwblhau gan Dîm Seicoleg Ystâd y Menywod ac, o ganlyniad i'r gwaith hwn, darparwyd cyllid ychwanegol ar gyfer Cymorth drwy Reoli Uwch (StEM) i Ystâd y Menywod ac arian hefyd i beilot sy'n gysylltiedig â Dyddiau Cynnar.*
- *Cafodd gwaith pwysig ei wneud i adolygu'r ddarpariaeth Dyddiau Cynnar yn Ystâd y Menywod fel rhan o'r Adolygiad Iechyd. Bydd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at waith y Tasglu.*

***Grŵp Adolygu Gofal Cymdeithasol (Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a NHSC/NHS E/I, HMPPS)***

- *Ym mis Ionawr 2021 sefydlodd HMPPS a NHS E/I Grŵp Cenedlaethol Adolygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Menywod aml-asiantaethol. Mae gan y grŵp hwn gadeirydd annibynnol ac mae ganddo gylch gorchwyl i ystyried y gwelliannau sydd eu hangen yn yr amgylchedd adeiledig yn ogystal ag yn y cynigion iechyd a wneir i fenywod yn y ddalfa*

***Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Genethod wedi'i Diweddaru (Y Swyddfa Gartref)***

- *Ers pasio Deddf Cam-drin Domestig 2021, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Genethod (2021) a'r Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig (2022). Bydd y dogfenau hyn yn trawsnewid ymhellach yr ymateb i'r troseddau hyn, o atal a chodi ymwybyddiaeth, gwella cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr, i sicrhau bod cyflawnwyr yn dod gerbron y gyfraith. Roedd hyn yn dilyn galwad eang am dystiolaeth a gafodd ymateb heb ei debyg – cyfanswm o fwy na 180,000 o ymatebion.*

o wella canlyniadau i fenywod agored i niwed sydd wedi'u cyflwyno yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd:

1. Cadarnhau ymrwymiad i amcanion y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd a'r Concordat.
2. Cytuno mai dull penodol i rywedd ac ymatebol i drawma ddylai weithredu fel y dull diofyn wrth ddarparu gwasanaethau, oni bai bod rhesymau digonol i'r gwrthwyneb.

3. Darpariaeth gwasanaeth mwy cydlynus a buddsoddiad gwell ynddynt, gan gynnwys sicrhau cynaliadwyedd y sector cymunedol i fenywod.
4. Canfod ffyrdd ar y cyd o greu sylfaen dystiolaeth gryfach.
5. Cytuno ar y trefniadau llywodraethu newydd.

- Gweithredir ar y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Cyflawni a'u dwyn i gyfrif gan y Bwrdd WCJS gweinidogol a Grŵp Arbenigol WCJS.

## Cam gweithredu 2: Ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg

Yr hyn y dywedwyd y byddem yn ei wneud

- Dylai rhanddeiliaid allanol sy'n dymuno tynnu sylw at faterion generig o fewn cwmpas y Strategaeth a/neu'r Concordat gysylltu â'r MOJ (yn cjwst@Justice.gov.uk).

- MOJ i gydnabod y mater a chynghori ai MOJ ynteu cyd-lofnodwr arall fydd yn ymateb. Cydlofnodwyr dynodedig i roi ymateb manwl i'r rhanddeiliad ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Cyflawni.

Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Mae'r MoJ a chyd-lofnodwyr wedi ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg drwy fewnflwch cjswt@justice.gov.uk <mailto:cjswt@justice.gov.uk> a'r Grŵp Arbenigol ar Fenywod yn y System gyfiawnder Troseddol**

  - Mae mewnflwch cjswt@justice.gov.uk <mailto:cjswt@justice.gov.uk> yn cael ei fonitro'n ddyddiol a phan fydd angen i gyd-lofnodwyr ymateb, mae'r MoJ yn hwyluso hyn.

  - Mae Grŵp Arbenigol Menywod yn y System gyfiawnder Troseddol (WCJS) (yn ffurfiol y Grŵp Cynghori ar Droseddwyr Benywaidd) a'r Gweithgor Troseddwyr Benywaidd Lleiafrifoedd Ethnig (FOME) yn ddau fforwm pwysig sy'n galluogi rhanddeiliaid i godi unrhyw fater sy'n eu pryderu gan gynnwys materion penodol sy'n effeithio ar fenywod o gefndiroedd ethnig amrywiol yn y System gyfiawnder Troseddol. Cyfarfu'r Grŵp Arbenigol am y tro cyntaf ar 30 Tachwedd 2021 ac yn fwyaf diweddar ar 7 Rhagfyr 2022.

  - Mae trafodaethau grŵp rheolaidd yn cael eu cynnal drwy Fwrdd Cyflawni WCJS, yn ogystal â sgyrsiau dwyffordd ag uwch-gydweithwyr trawslywodraethol, sy'n cynnwys materion penodol sy'n pryderu rhanddeiliaid. Er enghraifft, yn ystod datblygiad y Cynllun Cyflawni bu'r grŵp yn cwrdd drwy gydol y cyfnod i helpu i ffurfio ymrwymiadau a sut maent yn cael eu mesur.

  - Mae'r MoJ wedi cyhoeddi aelodaeth y Grŵp Arbenigol WCJS ar gov.uk.

Y Camau Nesaf

- Bydd cydlofnodwyr yn sicrhau bod materion sy'n cael eu codi gan randdeiliaid yn cael eu rhannu fel bydd yn briodol â chydweithwyr ar y Bwrdd Cyflawni. O bryd i'w gilydd, mi all rhanddeiliaid gael eu gwahodd i annerch y Bwrdd Cyflawni'n uniongyrchol i rannu eu profiadau ac i gyflwyno tystiolaeth.
- Bydd cydlofnodwyr yn rhannu safbwyntiau eu hadrannau ar faterion a godwyd ar draws y fframwaith llywodraethu ac yn cytuno ar gamau i helpu i roi sylw iddynt.

## Cam gweithredu 3: Hyrwyddo cyflawniadau lleol

Yr hyn y dywedwyd y byddem yn ei wneud

- Bydd cydlofnodwyr yn rhannu enghreifftiau o arferion gorau neu arloesi ar y lefel leol â'r Bwrdd Cyflawni, i alluogi dulliau effeithiol i gael eu mabwysiadu'n fwy eang.
- Bydd cydlofnodwyr yn helpu sefydliadau lleol (o fewn eu maes cyfrifoldeb) gyda gwaith i wella canlyniadau i fenywod, drwy hybu arferion gorau a rennir yn y Bwrdd Cyflawni.

Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Mae'r MoJ wedi ymgysylltu â phartneriaid cenedlaethol a lleol i ddatblygu cyfres o ddigwyddiadau ar arferion gorau WSA, gyda'r cyntaf wedi'i gynnal yn ystod Ionawr 2023, gydag adnoddau wedi'u cyhoeddi ar-lein wedi hynny.**
    - Mae'r MoJ wedi cynnal arolwg o gyd-lofnodwyr i gasglu enghreifftiau o arferion gorau ac mae hefyd wedi cynnal cyfweliadau manwl â rhanddeiliaid i ddatblygu astudiaethau achos sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi'i rhannu â chyd-lofnodwyr.
    - Mae'r MoJ wedi datblygu cyfres o ddigwyddiadau ar arferion gorau i helpu ardaloedd i sefydlu WSA.
    - Mae'r MoJ wedi bod yn cwrdd â rhanddeiliaid o fewn ac oddi allan i lywodraeth i ddatblygu perthynas waith sydd wedi galluogi cynnydd ar y Concordat a'r Cynllun Cyflawni Troseddwyr Benywaidd.
    - Mae'r MoJ hefyd yn mynychu fforymau mewnol ac allanol i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â throseddwyr benywaidd ac i gasglu gwybodaeth/arferion gorau.

Y Camau Nesaf

- Bydd cydlofnodwyr yn parhau i weithio â sefydliadau lleol a chenedlaethol i ganfod meysydd lle bu cyflawniadau ac i annog ardaloedd eraill i efelychu hyn pan yn bosib

## Cam gweithredu 4: Gwasanaethau rheng flaen sy'n ystyriol o rywedd a thrawma ac sy'n ymatebol iddynt

Yr hyn y dywedwyd y byddem yn ei wneud

- Bydd cydlofnodwyr yn nodi sut mae'r gweithluoedd yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain sydd mewn cysylltiad â menywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol.
- Os gwelir fod angen hyfforddiant, bydd y cydlofnodwyr yn llunio cynllun gweithredu i roi sylw i'r angen hwn. Pan yn briodol, gall hyn gynnwys defnyddio cyrff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer gweithluoedd fel cyfrwng cyfathrebu ac i ddarparu hyfforddiant.
- Pob cydlofnodwr sydd â gwasanaethau rheng flaen sy'n gweithio â menywod agored i niwed i adrodd i'r MoJ ar sut y cyflawnwyd yr ymrwymiad hwn.

Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Mae'r MoJ wedi cynnal arolwg o gyd-lofnodwyr ac asiantaethau a chanfu er bod gan y rhan fwyaf hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma, mae rhai bylchau o hyd y mae'r MoJ yn helpu i'w llenwi.**
    - Mae'r MoJ wedi rhannu adnoddau hyfforddi a nodwyd gan y bwrdd cyflawni a bu'n gweithio ag adrannau i ddarparu hyfforddiant lle'r oedd angen.
    - Mae nifer o gyd-lofnodwyr yn gweithio i wella ymhellach yr hyfforddiant sydd ganddynt i'w gynnig, gan gynnwys:
        - HMPPS yn datblygu hyfforddiant POWER
        - Mae'r DWP wedi ymrwymo i hyfforddwyr gwaith carchar mewn carchardai menywod sy'n cael hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar rywedd drwy MoJ/HMPPS
    - Mae camau'r MoJ a Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd trawslywodraethol yn ystyriol ac yn ymateb i drawma.
    - Mae'r MoJ wedi cynnwys adnoddau hyfforddi sy'n ystyriol ac yn ymateb i rywedd a thrawma yn nigwyddiadau arferion gorau WSA.

Y Camau Nesaf

- Bydd y MoJ a chyd-lofnodwyr yn defnyddio’r strwythurau llywodraethu newydd fel y Bwrdd Cyflawni, i barhau i gynnig fforwm i dynnu sylw at arferion hyfforddi newydd ac sy’n dod i’r amlwg.

***Astudiaeth achos o hyfforddiant sy’n ystyriol o drawma: Heddlu Dyfnaint a Chernyw***

- *Mae Heddlu Dyfnaint a Chernyw yn un o’r aelodau a sylfaenodd y Trauma-Informed Plymouth Network sy’n dwyn ynghyd mwy na 300 o aelodau o’r sectorau statudol, gwirfoddol, cymunedol a phreifat, ynghyd â phobl sydd â phrofiad bywyd o drawma. Nod y Rhwydwaith yw gwneud Plymouth yn ddinas sy’n ystyriol o drawma ac mae wedi gweithio o fewn yr heddlu i godi ymwybyddiaeth o drawma ac i sefydlu arferion gweithio sy’n ystyriol o drawma. Mae’r Rhwydwaith wedi datblygu hyfforddiant rhyng-asiantaethol di-dâl a chydweithredol sydd – ers dechrau 2022 – wedi’i gyflwyno i dros 1,000 o weithwyr proffesiynol yn ardal Plymouth, o wasanaethau cam-drin sylweddau lleol, a gweithwyr diogelu proffesiynol, i Wasanaeth Cam-drin Domestig Plymouth.*

- *Mae’r hyfforddiant yn rhan o becyn mwy o fentrau o’r gwaelod i fyny, gan gynnwys Siarter ‘Kindness’ a ddatblygwyd gyda Chyngor Dinas Plymouth, ac adnodd gwybodaeth Law Enforcement and Public Health (LEPH) sy’n helpu’r heddlu i ymgysylltu â dioddefwyr trais domestig neu gam-drin rhywiol mewn ffordd sy’n ystyriol o drawma.*

- *Roedd y newidiadau hyn yn cael eu goruchwylio gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, yn ogystal ag is-grŵp - Working in Partnership for women in the Criminal Justice System – gyda’r ddau ohonynt yn cael mewnbwn gan Grwpiau Cynghori Annibynnol a chynghorwyr â phrofiad bywyd. Yn ystod diwedd 2021 ac ymlaen i 2022 roedd yr heddlu wedi dechrau gweithio â nifer o academyddion ac asiantaethau trydydd sector i sicrhau bod ei ymyriadau ystyriol o drawma’n cael eu gwerthuso, gan gynnwys ymchwil â Phrifysgol Caerwysg i ddeall effaith cywilydd ar ymddygiad troseddol menywod.*

## Cam Gweithredu 5: Casglu Data Cenedlaethol

Yr hyn y dywedwyd y byddem yn ei wneud

- Y Bwrdd Cyflawni i gomisiynu arolwg o'r holl waith casglu data cyfredol sy'n berthnasol i'r garfan hon o fenywod.
- Mewn ymateb, bydd cydlofnodwyr yn adrodd i'r Bwrdd Cyflawni ynglŷn â'r data maent yn eu casglu a sut y cânt eu dadgyfuno.
- Bydd y Bwrdd Cyflawni yn herio cydlofnodwyr, yn canfod meysydd lle mae angen mwy o gi casglu a dadgyfuno, fel bydd yn briodol.

Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Mae'r MoJ yn cynyddu gwelededd a defnydd o ddata drwy weithgorau trawslywodraethol a metrigau sydd newydd eu datblygu a gaiff eu defnyddio i fesur cynnydd yr ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Cyflawni.**
    - Mae'r MoJ wedi datblygu Fframwaith Canlyniadau a fydd yn ei alluogi i fesur cynnydd a wnaed ar y Cynllun Cyflawni Troseddwyr Benywaidd yn erbyn metrigau penodol.
    - Drwy'r Prosiect Canlyniadau Gwell drwy Ddata Cysylltiol (BOLD) rydym yn edrych ar rannu data i wella ein dealltwriaeth o'r garfan hon o fenywod.
    - Mae cydlofnodwyr wedi ymuno â grŵp dadansoddi Troseddwyr Benywaidd trawslywodraethol a fydd yn trafod materion data ac ystadegol.
    - Roedd angen i ardaloedd sydd wedi mabwysiadu WSA gyda chyllid blaenorol yr MoJ gynnal gwerthusiadau o effeithiolrwydd sydd wedi canfod er na allwn eto ddod i'r casgliad bod y WSA wedi cael effaith uniongyrchol, mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o ddata sydd ar gael yn gyhoeddus yn awgrymu y bu gostyngiad addawol yn nifer yr oedolion benywaidd sy'n cael eu harestio.
    - Bydd angen i ardaloedd sydd wedi cael arian hefyd gynnal gwerthusiadau a rhannu data ar gynnydd.
    - Ynghyd â Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, mae'r MoJ wedi cyhoeddi cyfres o fetrigau a gaiff eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion. Bydd yr MoJ yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y metrigau hyn bob chwe mis.

Y Camau Nesaf

- Nododd adroddiad y Swyddfa Archwilio Gwladol Improving Outcomes for Women in the CJS yr angen i'r MoJ *identify gaps in available data which reduce its ability to monitor changes in women's journeys through the system at key stages, and plan how to work with other bodies to develop better data.* Bydd yr MoJ yn gweithio drwy'r Bwrdd Cyflawni a fforymau eraill i ganfod ardaloedd i gynyddu'r niferoedd sy'n ymuno. Mae'r MoJ hefyd yn sefydlu rhwydwaith dadansoddi troseddwyr benywaidd trawslywodraethol a fydd yn trafod ac yn rhannu canfyddiadau o ddadansoddiadau o raglenni o fewn Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd.

***Astudiaeth Achos o Rannu Data Cenedlaethol: Canlyniadau Gwell drwy ddata cysylltiol***

- *Mae Canlyniadau Gwell drwy Ddata cysylltiol (BOLD) yn rhaglen £19.7m, sy'n cael ei harwain gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cyd ag amryw o Adrannau Eraill y Llywodraeth. Mae'r rhaglen yn ymdrech i alluogi gwasanaethau trawslywodraethol sydd wedi'u cydlynu'n well, sy'n seiliedig ar dystiolaeth fwy effeithiol drwy ddata cysylltiol er mwyn helpu pobl ar adegau penodol yn eu rhyngweithio â'r System gyfiawnder Troseddol.*

- *Mae pedwar cynllun peilot yn cael eu rhedeg fel rhan o BOLD i ddangos gwerth data cysylltiol. Maent yn lleihau aildroseddu, yn helpu dioddefwyr troseddau, yn mynd i'r afael â digartrefedd ac yn lleihau camddefnydd o sylweddau.*

- *Mae'r peilot Lleihau Aildroseddu'n cael eu hategu gan uchelgais y Llywodraeth i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu drwy gysylltu data i ddeall yn well beth yw effaith ymyriadau penodol sy'n helpu troseddwyr i gefnu ar droseddu, yn enwedig o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig â rhannau eraill o lywodraeth fel cyflogaeth, iechyd, tai a pherthnasoedd teuluol. Fel rhan o'r rhglen hon, byddwn hefyd yn edrych ar garfanau penodol o bobl a sut y gallai canlyniadau amrywio o ganlyniad i wahanol nodweddion; un o'r carfanau hyn yw menywod.*

## Cam Gweithredu 6: Rhannu Data'n Lleol

Yr hyn y dywedwyd y byddem yn ei wneud

- Y Bwrdd Cyflawni i gynhyrchu a dosbarthu canllaw arferion gorau.
- Cydlofnodwyr i gyfrannu at y canllaw arferion gorau, drwy gasglu a rhannu data perthnasol.
- Cydlofnodwyr i rannu'r canllaw hwn â'u hasiantaethau a sefydliadau cyflawni lleol.

Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Mae'r MoJ wedi cynnal arolwg o gydlofnodion i gasglu enghreifftiau o arferion gorau a gaiff eu rhannu'n dilyn yr adroddiad hwn.**
    - Mae'r MoJ hefyd wedi cynnal cyfweliadau manwl â rhanddeiliaid i ddatblygu astudiaethau achos sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Cafodd yr wybodaeth a gasglwyd ei rhannu â chyd-lofnodwyr.
    - Mae'r MoJ wedi ymgysylltu â nifer o arweinyddion data ar gyfer WSA ac wedi trafod pa arferion gorau maent wedi'u canfod a pha ganllawiau a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer ardaloedd eraill.
    - Mae arweinyddion data wedi bod yn gefnogol ac maent wedi cytuno i gyfrannu a rhannu deunyddiau.
    - Roedd cyngor ar rannu data'n lleol wedi'i gynnwys yn nigwyddiadau arferion gorau WSA yr MoJ, gydag adnoddau'n cael eu cyhoeddi ar-lein yn ddiweddarach.

Y Camau Nesaf

- Bydd y MoJ yn parhau i edrych sut mae data'n cael eu casglu, eu cyfuno a'u defnyddio gan y MoJ ac ymhlith cydlofnodwyr.

***Astudiaeth achos o rannu data'n lleol: Greater Manchester Women's Support Alliance***

- *Ers 2014, mae'r Greater Manchester Whole System Approach wedi dwyn gwasanaethau statudol, preifat a gwirfoddol ynghyd i ganfod menywod ar adeg eu harestio a'u dedfrydu i ddargyfeirio menywod o garchar a, phan yn bosibl, o'r System gyfiawnder Troseddol yn gyfan gwbl. Mae'r dull hwn wedi adeiladu ar Gynghrair o wyth o ganolfannau menywod lleol, sydd gyda'i gilydd yn darparu set graidd o ymyriadau sy'n rhoi sylw i brif ffactorau troseddu menywod – o salwch meddwl, i ddyledion a chamddefnyddio sylweddau.*

- *Mae'r dull cydweithredol hwn yn cael ei ategu gan gytundeb rhannu data'n lleol, sy'n galluogi'r canolfannau i goladu, gyda chydsyniad pob menyw, gwybodaeth am ei chefndir tai, iechyd meddwl, domestig a chyfiawnder troseddol mewn un system rheoli achosion. Ers ei chyflwyno yn 2014, nid yn unig y mae'r system wedi galluogi darpariaeth fwy cyfannol, sy'n rhoi pwyslais ar yr unigolyn, ond roedd yn hanfodol i weithredu'r cysyniad 'Dywedwch wrthym unwaith', sy'n osgoi'r angen i fenywod orfod ailadrodd eu profiadau trawmatig wrth nifer o ymarferwyr er mwyn cael pecyn o gymorth sy'n diwallu eu holl anghenion.*

- *Ers gweithredu'r Dull System Gyfan, mae Manceinion Fwyaf wedi gweld gostyngiad sylweddol o 60% yn nifer y menywod sy'n cael eu hanfon i garchar, a gwelwyd gostyngiad o 5 pwynt canrannol yn y gyfradd aildroseddu ymhlith menywod rhwng 2014 a 2020, ac mae wedi bod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn gyson.*

## Cam Gweithredu 7: Offeryn Data Ardal Leol

Yr hyn y dywedwyd y byddem yn ei wneud

- Bydd y MOJ yn cyhoeddi offeryn data gyda metrigau sydd ar gael ar y lefel leol.
- Bydd y Bwrdd Cyflawni yn asesu gwerth a'r defnydd a wneir o'r offeryn ac yn gweithredu ar sail hynny.

Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Cyhoeddwyd yr offeryn data ym mis Ionawr 2021 ac fe'i defnyddir gan sefydliadau cenedlaethol a lleol i ymchwilio i ddata a thueddiadau ar draws ardaloedd daearyddol.**
  - Cyhoeddodd y MoJ fersiwn wedi'i diweddaru o'r offeryn ym mis Chwefror 2022 a chafwyd trafodaethau â nifer o randdeiliaid ynglŷn â sut maent yn defnyddio'r offeryn i lywio eu gwaith.

***Yr Offeryn Data Ardal Leol: astudiaeth achos yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai***

- *Mae'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai yn elusen annibynnol sy'n gweithio i greu system gosbi gyfiawn, ddyngarol ac effeithiol. Mae lleihau'r defnydd o garchardai i fenywod wedi bod yn elfen flaenllaw o'u rhaglen 5 mlynedd ddiweddar :'Transforming Lives: reducing women's imprisonment'.*
- *Roedd dadansoddi data'r Offeryn Data yn hybu'r gwaith ymgyrchu hwn, gan alluogi'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai i ymchwilio i dueddiadau mewn canlyniadau dedfrydu i fenywod yng Nghymru a Lloegr, ac i amlygu gwahaniaethau daearyddol yn y defnydd o garcharu ers cyhoeddi'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. Yn fwyaf penodol, mae'r Offeryn wedi amlygu anghysonderau mewn cyfraddau carcharu rhwng ardaloedd heddluoedd – gyda rhai ardaloedd yn gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o ddatrysiadau cymunedol i fenywod, ond mewn eraill ni welwyd llawer o newid yn y cyfraddau carcharu uchel ymhlith menywod.*

## Cam Gweithredu 8: Buddsoddiad Cenedlaethol

Yr hyn y dywedwyd y byddem yn ei wneud

- Bydd y Bwrdd Cyflawni'n trefnu digwyddiad ymgysylltu gyda chynrychiolwyr o bob un o'r cydlofnodwyr, sefydliadau'r sector gwirfoddol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill, gan ganolbwyntio ar faterion gwerth am arian, cydweithio, chwalu seilos a gwella canlyniadau i fenywod.

Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Mae'r MoJ wedi lansio cystadleuaeth cyllid grant gwerth hyd at £3.6m i hybu Dulliau System Gyfan. Bydd yr arian hwn ar gael i helpu i annog datblygiad Dulliau System Gyfan lleol.**
  - Cafodd cyngor ac arferion gorau i sicrhau cyllid ar lefel leol a chenedlaethol, cydweithio, chwalu seilos a gwella canlyniadau i fenywod eu cynnwys yn nigwyddiadau arferion gorau WSA y MoJ, ac yn yr adnoddau a gyhoeddwyd ar-lein yn ddiweddarach.
  - Mae'r MoJ wedi coladu gwybodaeth gan gyd-lofnodwyr am y cyfleoedd cyllido newydd sy'n cael eu cyflwyno gan y Cyfnod Adolygiad o Wariant 3 blynedd a ddechreuodd ym mis Ebrill, ac mae wedi rhannu hyn â Chymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Bydd y MoJ a chyd-lofnodwyr yn ystyried sut y gellir lledaenu hyn a gwybodaeth arall am gyllido ymhellach.
  - Mae Bwrdd Cyflawni WCJS wedi dechrau trafod sut y gellid alinio'r cyllid sy'n cael ei gynnig gan y llywodraeth i helpu menywod agored i niwed yn well.

Y Camau Nesaf

- Drwy Fwrdd Cyflawni WCJS, bydd cydlofnodwyr yn parhau i nodi a rhannu gwybodaeth ar gyd-gronfeydd, adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Adolygiadau o Wariant y dyfodol a chydgomisiynu gwasanaethau a all wella canlyniadau i fenywod,

***Cyllid Costau Craidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y sector menywod: astudiaeth achos y Anawim Centre***

- *Ers cyhoeddi'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi buddsoddi £9.5m yn y sector cymunedol menywod. Yn 2020/21 a 2021/22, buddsoddwyd £4.4m o'r arian hwn i dalu costau craidd gwasanaethau cymunedol sy'n gweithio â menywod sydd mewn perygl o droseddu neu sydd eisoes yn y system gyfiawnder troseddol. Mae dros 40 o sefydliadau wedi elwa ar y cyllid costau craidd hwn. Roedd y penderfyniad i ariannu costau craidd yn ymateb uniongyrchol i alwadau gan sefydliadau i wella cynaliadwyedd ariannol y sector sy'n darparu cymorth cyfannol hanfodol i fenywod agored i niwed, gan gynnwys fel rhan o fodelau dull system gyfan lleol.*
- *Cafodd Anawim – canolfan i fenywod sy'n gwasanaethu tua 800 o fenywod bob blwyddyn ym Mirmingham – gyfanswm o £150,000 yn y ddwy rownd o gyllid costau craidd Mae hyn wedi galluogi'r ganolfan i lansio llinell gymorth newydd a gwasanaeth sgwrsio ar-lein ac i gryfhau ei strwythur drwy helpu i greu swyddi newydd Prif Swyddog Gweithredol a Swyddog Cyfathrebu a Chodi Arian. Mae'r rolau craidd hyn, yn ogystal â Swyddog Gweithredu Anawim, wedi eu galluogi i ddechrau datblygu cynllun 5 mlynedd gyda'u staff ac ymddiriedolwyr. Bydd hyn yn cynnwys gweithio i godi ymwybyddiaeth o waith Anawim yn lleol ac ymhlith canolfannau menywod yn genedlaethol, hyrwyddo arbenigedd sefydliadau cymunedol menywod yn y system gyfiawnder troseddol a helpu i ehangu dulliau cyfannol, rhywedd benodol ar gyfer menywod sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol. Bydd hyn yn helpu i gyflawni nodau'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd y maent yn eu cefnogi'n llwyr.*

## Cam Gweithredu 9: Buddsoddiad Lleol

<u>Yr hyn y dywedwyd y byddem yn ei wneud</u>

- Pan fo hynny'n briodol, dylai cydlofnodwyr goladu a rhannu hyn a ddysgwyd o'r Dulliau System Gyfan sydd eisoes yn bodoli er mwyn dangos manteision cyllid ar y cyd ar lefel leol.

<u>Yr hyn rydym wedi'i wneud</u>

- **Mae'r MoJ wedi datblygu cyfres o ddigwyddiadau ar arferion gorau WSA, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023, gydag adnoddau wedi'u cyhoeddi ar-lein yn ddiweddarach.**
  - Drwy ymgysylltu rheolaidd ag ardaloedd fel Llundain, Manceinion Fwyaf, Sussex, Norfolk a Chymru, mae'r MoJ wedi dod i ddeall rhai o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu troseddwyr benywaidd ac maent yn defnyddio'r strwythurau llywodraethu newydd a Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd i ymateb i faterion fel ariannu darpariaeth gymunedol a gwasanaethau cam-drin domestig ar gyfer menywod.
  - Mae Bwrdd Cyflawni menywod yn y System gyfiawnder Troseddol yn gweithio ag arweinyddion WSA i rannu dysgu, i weld sut y gallant sicrhau bod y ffrydiau cyllido maent yn eu rheoli'n cael eu targedu a'u bod yn agored i'r bobl iawn.

<u>Y Camau Nesaf</u>

- Bydd y MoJ yn nodi meysydd lle gall ymddiriedolaethau a sefydliadau ehangu a gwella WSAau presennol a newydd.
- Bydd angen i ardaloedd WSA sy’n cael arwain gan Gyllid Integreiddio Gwasanaethau’r MoJ rannu data gwerthuso eu prosiectau â’r MoJ. Pan yn briodol, bydd y dadansoddiad yn cael ei rannu â WSAau eraill i oleuo meysydd arferion gorau a dysgu.

## Cam Gweithredu 10: Adroddiad cynnydd

Yr hyn y dywedwyd y byddem yn ei wneud

- Cyhoeddi adroddiad "Blwyddyn Ymlaen" ar-lein.

Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Mae'r Adroddiad Cynnydd hwn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd.**

Y Camau Nesaf

- Bydd y MoJ a'r cydlofnodwyr yn parhau i werthuso cynnydd y Concordat, gan ddefnyddio fforymau fel Bwrdd Gweinidogol Menywod yn y System gyfiawnder Troseddol a'r Bwrdd Cyflawni lefel swyddogol i hybu'r gwaith ac i ddwyn llofnodwyr i gyfrif.
- Bydd y camau eraill a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn ategu llawer o'r ymrwymiadau a wnaed yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, yn benodol o dan amcan cyntaf y cynllun hwnnw.
- Adroddir ar gynnydd fel rhan o'r adrodd ehangach ar weithredu'r Cynllun Cyflawni.

***Astudiaeth achos o fuddsoddiad lleol: Prosiect Anghenion Cymhleth y Nelson Trust***

*Mae'r Nelson Trust yn darparu gwasanaeth arloesol sy'n ystyriol ac yn ymateb i rywedd a thrawma sy'n cael ei gydgomisiynu gan nifer o randdeiliaid (cynghorau, yr heddlu, grŵp comisiynu clinigol, tai). Mae'r prosiect yn helpu 20 o fenywod y flwyddyn sydd wedi profi cyfuniad o gam-drin domestig, cam-drin yn eu plentyndod, problemau cyffuriau ac alcohol, problemau iechyd meddwl, problemau ariannol, digartrefedd a chysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol neu ofal cymdeithasol.*

*Drwy ddefnyddio dull perthynol ac adferol, mae gweithiwr allweddol pwrpasol yn helpu pob menyw i ymgysylltu â'r gwasanaeth i'w helpu i oresgyn unrhyw rwystrau y gallant fod yn eu hwynebu wrth geisio cael help. Mae'r gwasanaeth yn helpu pob menyw i ddatblygu cydnerthedd, i gydnabod eu cryfderau, a rhoi strategaethau iddynt i greu dyfodol mwy positif iddynt hwy a'u theuluoedd.*

*Mae'r dull dwys, ystyriol o drawma o weithio a'r cydweithredu rhwng asiantaethau'n helpu menywod i roi sylw i hanghenion heb eu diwallu ac i gyflawni newid trawsnewidiol.*

*Er enghraifft, cafodd menyw y cymerwyd ei babi oddi arni cyn dechrau ei chysylltiad â'r prosiect ei helpu i gadw'i baban newydd-anedig ac mae hi bellach yn gwirfoddoli fel mentor i fenywod eraill*

# Y Camau Nesaf

Un o nodau canolog y Concordat oedd gwella gweithio traws-asiantaethol i sicrhau bod ymdrechion yn alinio, fel y bydd yr holl sefydliadau y gallai menyw agored i niwed ddod i gysylltiad â hwy yn cydnabod ei hanghenion lluosog a chymhleth a sicrhau ei bod yn gallu cael gafael ar y cymorth mwyaf priodol, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr un mater penodol sydd o fewn eu cylch gorchwyl. Mae enghreifftiau da o hyn yn digwydd ar lefel leol, fel yr amlygwyd drwy gydol yr adroddiad. Fodd bynnag, yn ogystal â'r cydweithrediad o'r gwaelod i fyny hwn ar y lefel leol, mae angen inni barhau i sicrhau bod mwy o alinio ar y brig – rhwng adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth. Mae cydlofnodwyr y Concordat wedi cymryd camau pwysig tuag at gyflawni hyn drwy'r ymrwymiadau a wnaed ganddynt ond, i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau i fenywod, mae'n bwysig ein bod yn parhau i gydweithio'n glos â sefydliadau lleol a chenedlaethol drwy fforymau fel Grŵp Arbenigol Menywod yn y System gyfiawnder Troseddol (WCJS) a'r Gweithgor Troseddwyr Benywaidd o Leiafrifoedd Ethnig (FOME) yn ogystal ag ar delerau dwyochrog.

Fel y nododd y Swyddfa Archwilio Gwladol yn eu hadroddiad yn 2022 er bod bylchau wedi bod yn ein trefniadau llywodraethu yn y gorffennol mae'r rhain wedi'u datrys i raddau helaeth gan fod y MoJ, yn gynnar yn 2022, wedi cynnal arolwg mewnol o'r trefniadau llywodraethu sydd ynghlwm wrth y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. Ers hynny, mae'r MoJ wedi rhoi trefniadau newydd ar waith, o dan arweiniad Bwrdd trawslywodraethol WCJS ar lefel gweinidog, i sicrhau eglurder ar amcanion a rennir a rôl pob cydlofnodwr.

Bydd y setliad 3 blynedd yr Adolygiad o Wariant yn ein galluogi ni, fel llywodraeth i gynllunio dros gyfnod o sawl blwyddyn gan alluogi'r sector i gael mwy o sicrwydd o ran ei drefniadau cyllido, a thrwy hynny ei alluogi i fuddsoddi mewn staff, hyfforddiant ac adnoddau. Rydym wedi dechrau gwneud hyn eisoes drwy lansio cystadlaethau grant i helpu sefydliadau sy'n gweithio i helpu menywod yn y System gyfiawnder Troseddol.

**<u>Bydd y Concordat yn awr yn parhau drwy Gynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, gyda phwyslais penodol ar:</u>**

### Cymorth pellach i ddatblygu Dulliau System Gyfan ar y lefel leol

- Fel y nodwyd mewn adrannau blaenorol, mae'n ymddangos bod y Dulliau System Gyfan yn dod â buddiannau mawr i ardaloedd fel Manceinion Fwyaf, Llundain, De Cymru a Norfolk, lle maent wedi datblygu fwyaf. Mae angen i ni'n awr barhau i gyflwyno'r dull hwn mewn ardaloedd newydd ac annog ei sefydlu mewn ardaloedd lle maent eisoes yn datblygu.
- Roedd llawer o'r camau gweithredu yn y Concordat wedi'u hanelu at wireddu hyn ac felly mae cwblhau'r cynllun gweithredu'n gam pwysig. Mae'r MoJ wedi

cyhoeddi adnoddau ar arferion gorau ar sefydlu WSA a bydd yn parhau i hyrwyddo buddiannau'r dull hwn.

**Gwneud mwy i gynnig help i fenywod ag anghenion cymhleth <u>cyn</u> iddynt droseddu**

- Mae menywod sy'n troseddu'n debygol o fod ag anghenion lluosog a chymhleth ac maent yn debygol o fod wedi bod mewn cysylltiad â nifer o gyrff cyhoeddus. Mae hyn yn gyfle i bob un o'r sefydliadau hyn i weithio â'i gilydd i ganfod y menywod hynny mewn mwyaf o angen, i rannu gwybodaeth, ac i sicrhau bod y menywod yn gallu cael cymorth wedi'i deilwra sy'n mynd ymhellach na rhoi sylw i'r broblem gyntaf sydd wedi dod â hwy i sylw swyddogion cyhoeddus.
- Er bod enghreifftiau gwych o rannu gwybodaeth a chydweithredu o'r math hwn ar y lefel leol, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny â WSAau, mae angen cydlynu gwell ar y lefel genedlaethol o ran pennu amcanion strategol, cyllido ac ariannu penderfyniadau a chomisiynu gwasanaethau. Mae bwrdd gweinidogol WCJS yn gam cyntaf i'r cyfeiriad hwn, ac mae'r Grŵp Arbenigol yn fodd i'w gyflawni.